# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | | |
|---|---|---|
| Meeting Venue: | **Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>National Assembly for Wales |
| Meeting date: | **Dydd Mawrth, 5 Mawrth 2013** | |
| Meeting time: | **09:00** | |

This meeting can be viewed on Senedd TV at:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_05_03_2013&t=0&l=cy

## Concise Minutes:

| | |
|---|---|
| Assembly Members: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Gwyn Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Jocelyn Davies** |
| Witnesses: | |
| Committee Staff: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

### 2. Sesiwn Friffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori'

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru; Paul Dimblebee, Cyfarwyddwr Grŵp; a Jeremy Morgan, Arbenigydd Perfformiad, i'r cyfarfod.

2.2 Cafodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei wahodd gan y Cadeirydd i wneud cyflwyniad i'r Pwyllgor ar ei adroddiad: 'Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori'.

## 3. Sesiwn Friffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd'

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru; Dave Thomas, Cyfarwyddwr Grŵp; a Malcolm Latham o'r adran Archwilio Perfformiad i'r cyfarfod.

3.2 Cafodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei wahodd gan y Cadeirydd i wneud cyflwyniad i'r Pwyllgor ar ei adroddiad: 'Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd'.

## 4. Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2013.

### 5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

## 6. Ystyried yr opsiynau ar gyfer ymdrin ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori'

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod sut yr oedd am ymdrin ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori', a chytunodd i gynnal ymchwiliad byr.

## 7. Ystyried yr opsiynau ar gyfer ymdrin ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd'

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod sut yr oedd am ymdrin ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd', a chytunodd i gynnal ymchwiliad byr.

## 8. Ystyried yr opsiynau ar gyfer ymdrin ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg'

8.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr opsiynau ar gyfer ei ymchwiliad i gasgliadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg', a gofynnodd i'r Clerc baratoi cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad.

## 9. Ystyried adroddiad drafft y Pwyllgor ar broses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen

9.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei adroddiad drafft ar broses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, a chytunodd i ystyried gwelliannau terfynol i'r adroddiad drafft ar ffurf electronig.

9.2 Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi'r adroddiad yn fuan.

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.